# GWŶS Y CYNGOR

**Rydych dan wŷs trwy hyn i ddod i gyfarfod CYNGOR DINAS A SIR ABERTAWE i'w gynnal yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**
**Dydd Iau, 26 Tachwedd 2015 am 5.00 pm**

Cynigir trafod y materion canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb.** | |
| 2. | **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.** | 1 - 2 |
| 3. | **Cofnodion.**<br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod cyffredinol yn cyngor a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2015 a'u llofnodi fel cofnod cywir. | 3 - 10 |
| 4. | **Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyfarfod cyffredinol diwethaf y Cyngor.** | 11 - 16 |
| 5. | **Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.** | |
| 6. | **Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.** | |
| 7. | **Cwestiynau gan y Cyhoedd.**<br>Rhaid i'r cwestiynau ymwneud â materion ar ran agored agenda'r cyfarfod, ac ymdrinnir â hwy o fewn 10 munud. | |
| 8. | **Cyflwyniad Cyhoeddus - Dim.** | |
| 9. | **Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.**<br>*Bydd Chris Davies, y Prif Swyddog Tân, yn rhoi'r diweddaraf i Aelodau ar yr heriau daearyddol, ardal yr awdurdod, perfformiad y gwasanaeth yn Abertawe, gwerth cyhoeddus, effeithlonrwydd a gwerth am arian. Yna ceir sesiwn holi ac ateb.* | |
| | **Adroddiad Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach.** | |
| 10. | **Polisi Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (HMO) 2016.** | 17 - 26 |
| | **Adroddiad Aelod y Cabinet dros Gyllid a Strategaeth.** | |
| 11. | **Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor 2016-2017.** | 27 - 32 |
| | **Adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio.** | |
| 12. | **Adolygu'r Polisi Gamblo.** | 33 - 96 |
| | **Adroddiad Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad.** | |

| | | |
|---|---|---|
| **13.** | **Aelodaeth Pwyllgorau.** | **97 - 98** |
| | **Adroddiad yr Arweinydd.** | |
| **14.** | **Penodi Prif Weithredwr.** | **99 - 108** |
| | **Adroddiadau Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.** | |
| **15.** | **Caniatâd absenoldeb ar gyfer cynghorydd - Y Cynghorydd B G Owen.** | **109 - 110** |
| **16.** | **Adroddiad Blynyddol Drafft 2016 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Ymgynghoriad.** | **111 - 116** |
| **17.** | **Penodi Cynghorydd Cymuned/Tref i fod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau.** | **117 - 128** |
| **18.** | **Cwestiynau gan y Cynghorwyr.** | **129 - 137** |

**19. Rhybudd o Gynnig: Cynghorwyr C E Lloyd, R C Stewart, C Richards, M C Child, W Evans, R Francis-Davies, J E C Harris, D H Hopkins, A S Lewis a J A Raynor.**

Mae'r cyngor hwn yn gwrthwynebu cyflwyno Bil Undebau Llafur 2015. Rydym yn gofyn i'r cyngor hwn ysgrifennu'n syth i annog Llywodraeth Ceidwadol y DU yn San Steffan i roi'r gorau i'r Bil hwn ac ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â symudiad yr Undebau Llafur i gyflawni cymdeithas decach.

Credwn fod y bil hwn yn cael ei arwain gan ideoleg y Ceidwadwyr ac mae'n ymateb sydd wedi dyddio i heriau'r 21ain ganrif.

Mae'r bil yn wrthgynhyrchiol, yn ddialgar, yn ymrannol yn gymdeithasol, a bydd yn arwain at fwy o berthnasoedd gwrthdaro rhwng cyflogwyr a gweithwyr, ac yn pen draw yn tanseilio yn hytrach na chefnogi cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus pwysig. Mae gan Gyngor Abertawe eisoes draddodiad hir o berthnasoedd da gyda'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur ac yn cydnabod yn llawn y rôl hynod bwysig sydd ganddynt yn y sefydliad hwn, y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r gymuned ehangach. Ein barn ni hefyd yw bod Cyngor Abertawe'n ddigon abl i benderfynu sut mae'n rhyngweithio â'i weithwyr a'r Undebau Llafur ac nid oes angen deddfwriaeth arno ar gyfer y mater hwn. Mae'r Bil hwn yn ymosodiad ar ddemocratiaeth.

**20. Rhybudd o Gynnig: Cynghorwyr R C Stewart, C Richards, A S Lewis, J A Raynor, R Francis-Davies, D H Hopkins, W Evans, M C Child, C E Lloyd a J E C Harris.**

GOSTYNGIAD ARFAETHEDIG MEWN TARIFFAU CYFLENWI TRYDAN AR GYFER CYNLLUN YNNI ADNEWYDDADWY

Mae'r cyngor hwn yn protestio yn y termau cryfaf posib am faint y gostyngiad mewn tariffau cyflenwi trydan ar gyfer gosodiadau

ffotofoltaidd solar a'r rhybudd annigonol am y newidiadau, a fydd yn cael effaith andwyol sylweddol ar gyflwyno holl gynlluniau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol yn Abertawe a'r DU.

Mae'r cyngor yn cydnabod y manteision arwyddocaol i'r amgylchedd, yr economi ac i'r gymdeithas o hyrwyddo'r gosodiadau hyn a dulliau eraill o ynni adnewyddadwy. Rhoddwyd cymhorthdal i'r cynlluniau hyn gan Dariffau Cyflenwi Trydan (FiT) y Llywodraeth. Mae'r FiT wedi bod yn llwyddiant enfawr ac wedi helpu awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a grwpiau ynni cymunedol i adeiladu modelau busnes hyfyw ar gyfer eu prosiectau, gan helpu i leihau a datganoli gwariant ynni, mynd i'r afael â thlodi tanwydd a chreu incwm i'w ail-fuddsoddi yn yr ardal. Mae'r FiT hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn sefydlu diwydiant ynni adnewyddadwy sydd bellach yn cyflogi oddeutu 2,010 o bobl yng Nghymru. Mae'r manteision hyn bellach mewn perygl o gael eu colli, gydag oddeutu 1,608 o swyddi (80%) mewn perygl o ganlyniad i'r toriad arfaethedig gwerth 87% i'r FiT.

Mae'r cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Ganolog i ailystyried eu sefyllfa wrth adolygu raddfa'r toriad yn FiT a gweithredu trefn sy'n gwneud gosodiadau ffotofoltaidd solar yn fforddiadwy i gymunedau lleol a sicrhau bod newidiadau'n cael eu cyflwyno fel bod gan y diwydiant ddigon o amser i addasu, gan roi sefydlogrwydd a chynnal hyder buddsoddwyr mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy.

Patrick Arran
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Canolfan Ddinesig
Abertawe
**Dydd Mawrth, 17 Tachwedd 2015**
**I: Bob Aelod o'r Cyngor**